OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 704

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011

## RHAN 7

GOFYNIAD AR GYRFF GIG, AC EITHRIO CYRFF GIG CYMRU, I YSTYRIED IAWN, A'R WEITHDREFN SYDD I'W DILYN GAN GORFF GIG CYMRU PAN GAIFF HYSBYSIAD O BRYDER YN UNOL Å DARPARIAETHAU'R RHAN HON

**Amgylchiadau pan fo rhaid i gorff GIG Lloegr ystyried a allai iawn fod yn gymwys ai peidio**

**35.** Pan fo corff GIG Lloegr yn cael, o dan weithdrefn gwynion berthnasol, hysbysiad o bryder sy'n cynnwys honiad bod, neu y gallai fod, niwed wedi ei achosi, ac sy'n ymwneud â gwasanaethau a ddarparwyd ganddo neu y trefnodd i'w darparu o dan drefniadau gyda chorff GIG Cymru, rhaid i'r corff GIG Lloegr, wrth ystyried y pryder yn unol â'r weithdrefn gwynion honno, ystyried a yw'r pryder yn cynnwys atebolrwydd cymwys ai peidio, y gallai fod iawn ar gael amdano.